

Tribiwnlys Anghenion
Addysgol Arbennig Cymru



Special Educational
Needs Tribunal for Wales

Adroddiad Blynyddol 2008-2009



Rhagfyr 2009

Gellir cael copïau ychwanegol o'r adroddiad hwn oddi wrth:

TAAAC

Uned 32

Parc Menter Dole Road

Llandrindod

Powys LD1 6DF

Ffôn: 01597 829800

Ffacs: 01597 829801

E-bost: tribunalenquiries@wales.gsi.gov.uk



75% wedi'i ailgylchu
recycled

ISBN 978 0 7504 5465 0

© Hawlfraint y Goron Rhagfyr 2009

CMK-22-07-442

E592 0910

Tribiwnlys Anghenion
Addysgol Arbennig Cymru



Special Educational
Needs Tribunal for Wales

At: Leighton Andrews
Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Rhagfyr 2009

Rwy'n falch o gyflwyno fy chweched Adroddiad Blynyddol fel Llywydd Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru. Mae'r adroddiad yn rhoi manylion am weithgareddau'r Tribiwnlys yn y flwyddyn 1 Medi 2008 i 31 Awst 2009.

Rhiannon Ellis Walker OBE
Llywydd, TAAAC

Uned 32, Parc Menter Ddole Road, Llandrindod, Powys, LD1 6PF
Unit 32, Ddole Road Enterprise Park, Llandrindod Wells, Powys, LD1 6PF
Llinell Gymorth | Helpline: 01597 829800
Gweinyddu Cyffredinol | General Administration: 01597 829802
Ffacs | Fax: 01597 829801 • E-bost | E-mail: tribunalenquiries@wales.gsi.gov.uk

Cynnwys

Rhagair y Llywydd	1
Nifer yr Apelau AAA	5
Rhaniad Bechgyn:Merched Apelau AAA	6
Cyflymder y Gwaredu	7
Nifer yr Apelau fesul AALI	8
Canlyniad Apelau yn ôl AALI	9
Mathau o Apêl	10
Natur AAA	12
Canlyniad Apelau - Cyffredinol	14
Canlyniad Apelau - yn ôl Ysgol	15
Canlyniad Apelau - yn ôl Natur AAA	16
Monitro Ethnig	16
Hawliadau Gwahaniaethu ar Sail Anabledd	17
Apelau i'r Uwch Dribiwnlys	17
Cwynion	17
Ysgrifenyddiaeth	17
Gwariant	18
Aelodaeth y Tribiwnlys	19

Rhagair y Llywydd

Rhagarweiniad

Dyma fy chweched adroddiad blynyddol fel Llywydd Tribiwnlys AAA Cymru (TAAAC). Mae'r adroddiad yn cyflwyno nifer, math a chanlyniadau'r apelau AAA a'r hawliadau o wahaniaethu ar sail anabledd a wnaed yn ystod y cyfnod 1 Medi 2008 i 31 Awst 2009.

Bu hon yn flwyddyn gyffrous a phrysur yn nhermau'r cynnydd a wnaed gydag agenda Llywodraeth Cynulliad Cymru (LICC) i hyrwyddo cyfranogiad plant mewn prosesau sy'n effeithio arnynt. Bydd y Mesur Addysg (Cymru) arfaethedig yn rhoi hawl nas gwelwyd ei debyg erioed o'r blaen i blant a phobl ifanc wneud apelau anghenion addysgol arbennig a hawliadau yn ymwneud â gwahaniaethu ar sail anabledd, yn uniongyrchol i'r Tribiwnlys. Rwy'n gwybod fy mod yn siarad ar ran aelodau ac ysgrifenyddiaeth y Tribiwnlys pan ddywedaf faint mae'r datblygiad hwn yn cael ei groesawu a faint yr ydym yn edrych ymlaen at ateb yr her a ddaw yn sgil y newid hwn gyda'n brwdfrydedd a'n hymrwymiad arferol. Mae'r Tribiwnlys eisoes yn gweithio'n agos gyda LICC a sefydliadau eraill i ddatblygu gweithdrefnau yn barod ar gyfer yr astudiaeth beilot a gynhelir cyn ei gweithredu'n llawn.

Mae'r hawliau newydd yn sail i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, sy'n cyflwyno'n glir y dylai plant fod yn cymryd rhan mewn penderfyniadau neu brosesau sy'n effeithio arnynt. Rwyf wedi crybwyll mewn Adroddiadau Blynyddol blaenorol fy mhryderon nad yw barn y plentyn bob amser yn amlwg ym mhroses yr apelau, diffyg yr hoffwn ei weld yn cael ei unioni yn y rheoliadau newydd.

Gan gadw hyn mewn cof rwy'n croesawu bwriad Llywodraeth Cynulliad Cymru i ddiwygio rheoliadau gweithdrefnol y Tribiwnlys. Dosbarthwyd argymhellion amlinellol ar gyfer rheoliadau newydd mewn cyfarfodydd diweddar i Grwpiau Defnyddwyr ac fe'u cyhoeddwyd ar wefan y Tribiwnlys (<http://wales.gov.uk/sentwsub/home>). Gellir cael copi hefyd drwy gysylltu â swyddfa'r Tribiwnlys yn uniongyrchol. Pwysaf ar ddefnyddwyr y Tribiwnlys i fanteisio ar y cyfle i ymateb i'r argymhellion dechreuol a sicrhau bod eu barn yn wybyddus. Mae'n bwysig iawn fod y rheoliadau yn cael eu datblygu yng ngoleuni profiad y rhai hynny sy'n ymwneud â'r broses. Rwy'n arbennig o awyddus i sicrhau bod y rheoliadau yn hawdd eu deall gan ddefnyddwyr a bod darpariaeth symlach ar gyfer yr hyn sy'n aml yn weithdrefnau cymhleth.

Rwy'n croesawu sefydlu Pwyllgor Cymru o'r Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd ym mis Mehefin y llynedd. Mae gennyf ddiddordeb yn y gwaith y mae'r Pwyllgor wedi ei gwblhau hyd yma i fapio ac adolygu'r sefyllfa o ran cyfiawnder gweinyddol yng Nghymru. Edrychaf ymlaen at dderbyn adroddiad yr adolygiad maes o law. Mae aelodau'r Pwyllgor hefyd wedi arsylwi rhai o'n gwrandawiadau Tribiwnlys a'n cyfarfodydd grwpiau defnyddwyr. Rwy'n falch o ddweud ein bod wedi derbyn adborth cadarnhaol gan aelodau'r Pwyllgor mewn perthynas â gwrandawiadau a chyfarfodydd grwpiau defnyddwyr. Edrychaf ymlaen at gyfranogiad parhaus Pwyllgor Cymru dros y flwyddyn i ddod.

Apelau AAA

Yn dilyn y ddwy flynedd ddiwethaf lle mae nifer yr apelau wedi gostwng, mae ffigurau eleni wedi parhau yn weddol gyson gyda 92 o apelau wedi eu cofrestru o'u cymharu â 94 y flwyddyn flaenorol.

Er sefydlu'r Tribiwnlys yn 2003 a hyd at ddiwedd y flwyddyn adrodd hon, rydym wedi cofrestru cyfanswm o bron i 700 o apelau. Yn ystod yr ychydig flynyddoedd cyntaf o weithredu gwelwyd cynnydd cyson yn nifer yr apelau gyda'r nifer uchaf o apelau, 150, wedi eu cofrestru yn 2005/06. Ers hynny bu gostyngiad bob blwyddyn, hyd nes i'r niferoedd sefydlogi eleni.

Mae nifer yr apelau yn ôl Awdurdod wedi parhau yn weddol sefydlog hefyd: mae llai na 1/3 o AALL wedi gweld cynnydd ac, i'r rhai lle mae'r ffigurau wedi cynyddu, mae'r niferoedd yn amlwg yn isel. Ond nodaf gyda rhywfaint o bryder yr amrywiaeth rhanbarthol mewn apelau a ddaeth yn amlwg yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Mae Canolbarth a Gorllewin Cymru ar gyfer 2007/09 a 2008/09 wedi cyfrif am 32% o'r holl apelau a gofrestrwyd, o'i gymharu ag 17% yn 2006/07.

Bydd cynnydd sylweddol o 17% yn nifer yr apelau sy'n ymwneud â materion cyn-datganiad, gwrthod i asesu a gwrthod rhoi datganiad. Mae'r mathau hyn o apelau bellach yn cyfrif am 47% o'r holl apelau a gofrestrwyd o'i gymharu â 30% y llynedd. Mae apelau am faterion cyn datganiad yn llai tebygol o fynd ymlaen i wrandawriad. O'r 28 o apelau a wrandawyd y llynedd dim ond 7 (25%) oedd am faterion yn ymwneud â chyn-ddatganiad, gyda 5 yn cael eu hategu a 2 yn cael eu gwrthod. Nid yw'n amlwg pam y bu cynnydd eleni, er yn ôl ystadegau LICC, y bu gostyngiad bychan yng nghyfanswm canran y datganiadau a gyhoeddwyd ar draws Cymru.

Mae 50% o'r holl apelau yn ymwneud â chynnwys y datganiad.

Mae'r mathau hyn o apelau yn aml yn fwy cymhleth ac yn fwy tebygol o fynd ymlaen i wrandawriad. O'r 28 apêl a aeth ymlaen i wrandawriad roedd 21 (75%) yn ymwneud â chynnwys y datganiad, ac o blith y rhain, ategwyd 19 a gwrthodwyd 2.

O'r 11 o apelau heb eu cofrestru cafodd 7 eu tynnu'n ôl cyn cofrestru. Nid oeddem yn gallu cofrestru 4 oherwydd na fodlonwyd y meini prawf ar gyfer cofrestru neu roedd yr apelau y tu allan i'n hawdurdodaeth.

Cyflawnwyd cyfanswm o 118 o apelau dros gyfnod yr adroddiad. Mae hyn yn cynnwys y 26 o apelau a ddygwyd ymlaen o flwyddyn flaenorol y Tribiwnlys. O blith y rhain: penderfynwyd ar 28 apêl (y cafwyd 25 eu hategu a 5 eu gwrthod), cafodd 45 eu tynnu'n ôl, cafodd 19 eu cydsynio ac mae 25 o dan ystyriaeth ac wedi eu dwyn ymlaen i flwyddyn hon y Tribiwnlys.

Hawliau Apêl

Cafodd hawl rhieni i apelio yn erbyn penderfyniadau arbennig a wneir gan AALL eu sefydlu'n amlwg yn Neddf Addysg 1996 ac adlewyrchir hyn yng Nghod Ymarfer AAA Cymru. Mae gan AALL ddyletswydd statudol glir i hysbysu rhieni am eu hawliau i apelio fel y cyflwynir hynny yn y Cod. Mae'n peri pryder i mi fod nifer fechan o enghreifftiau lle'r ymddengys nad yw rhieni wedi eu hysbysu am eu hawliau i apelio i'r Tribiwnlys. Rwy'n ystyried unrhyw wyro o ddyletswydd yr AALL yn fater difrifol iawn a byddaf yn monitro'r sefyllfa yn ofalus.

Hawliadau Gwahaniaethu ar Sail Anabledd

Mae hawliadau yn ymwneud â gwahaniaethu ar sail anabledd yn parhau yn elfen fach o waith y Tribiwnlys. Yn wir rydym wedi gweld niferoedd llai eleni gyda dim ond 2 o'i gymharu â 9 y llynedd. Ymdriniwyd hefyd â 4 Hawliad dros y cyfnod hwn a gafodd eu dwyn ymlaen o'r flwyddyn flaenorol. Mae hawliadau yn tueddu i fod yn gymhleth iawn a gallant gymryd mwy o amser i'w gwrandao a'u penderfynu.

Mesur Addysg (Cymru) arfaethedig

Deallwn fod y Mesur Addysg (Cymru) arfaethedig, a fydd yn ymestyn hawliau apêl ynghylch AAA a Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd i'r Tribiwnlys i blant, ar adeg ysgrifennu hyn wedi cwblhau ei gam terfynol o flaen Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae bellach yn trosglwyddo i'r Cyfrin Gyngor.

Roeddwn yn falch o gael gwahoddiad i roi tystiolaeth i Bwyllgor Deddfwriaeth y Cynulliad Cenedlaethol mewn perthynas â'r ddeddfwriaeth bwysig a chyffrous hon.

Credaf fod gweithredu cyfnod peilot yn hanfodol i ganiatáu i'r holl bartneriaid yn y broses ddatblygu a mireinio mecanweithiau a hyfforddiant priodol. Mae fy aelodau a'r ysgrifenyddiaeth ar hyn o bryd yn cymryd rhan mewn Grŵp Dylunio a Gweithredu Peilot.

Eisoes mae Ysgrifenyddiaeth y Tribiwnlys wedi dechrau derbyn ymholiadau gan bobl ifanc, a bydd yn ddiddorol rheoli'r hawliau newydd hyn a gweld sut y defnyddir nhw. Rydym, wrth gwrs, wedi bod yn broactif wrth gynllunio ar gyfer ein rôl newydd ac rydym wedi gwneud trefniadau ar gyfer hyfforddiant ac edrych ar ein prosesau cyfathrebu, gan edrych i'r tymor hir a chyflwyno'r hawliau ar draws Cymru.

Rheoliadau Gweithdrefnol y Tribiwnlys

Mae'r Mesur hefyd yn rhoi cyfle a groesewir i edrych o'r newydd ar ein rheoliadau. Unwaith eto rwyf wedi bod mewn cysylltiad llawn â swyddogion LICC yngl n â hyn ac rydym yn cytuno bod cyfle yma i wneud ein ffyrdd o weithio yn gliriach ac yn fwy hyblyg.

Deallaf y bydd LICC yn ymgynghori yn ystod gwanwyn y flwyddyn nesaf, ond cyn hynny y byddant yn trafod eu bwriadau yn fanwl gyda Grwpiau Defnyddwyr y Tribiwnlys. Byddwn yn pwyso ar bartneriaid i gymryd rhan yn y prosesau hyn i sicrhau y clywir eu lleisiau ac i sicrhau bod rheoliadau yn adlewyrchu cyn belled ag sy'n bosib anghenion ein defnyddwyr.

Ymgysylltu â Defnyddwyr y Tribiwnlys

Mae'r Tribiwnlys yn croesawu'n fawr y cyfle i ymgysylltu â'i ddefnyddwyr ac mae cyfarfodydd rheolaidd eich Grwpiau Defnyddwyr yn darparu fforwm defnyddiol i ni wneud hyn.

Yn ystod eleni rydym wedi cynnal dau gylch o gyfarfodydd Grwpiau Defnyddwyr rhanbarthol ar draws Cymru yn trafod, ymysg eitemau eraill, bolisi'r Tribiwnlys a newidiadau deddfwriaethol arfaethedig. Gellir canfod manylion am gylch nesaf cyfarfodydd y Grwpiau Defnyddwyr ar ein gwefan neu drwy gysylltu â'r Tribiwnlys yn uniongyrchol. Byddem yn arbennig o falch o gael mwy o gyfranogiad gan rieni sy'n cael eu tangynrychioli mewn cyfarfodydd ar hyn o bryd.

Gwasanaeth Tribiwnlysoedd

Mae'r trefniadau newydd ar gyfer apelau i'w hanfon ymlaen yn erbyn penderfyniadau TAAAC i'r Uwch Dribiwnlys wedi bod yn eu lle ychydig dros flwyddyn. Yn ystod y cyfnod hwn ni wnaed unrhyw apelau i'r Uwch Dribiwnlys yn erbyn penderfyniadau TAAAC. Ond mae Llys Swyddfa'r Apelau bellach ar agor yng Nghaerdydd ac mae Gwasanaeth y Tribiwnlys wedi gwneud ymrwymiad y bydd yr holl apelau a anfonir ymlaen o benderfyniadau TAAAC yn cael eu gwranddo yng Nghymru. Er fy mod yn hapus iawn na fu rheswm dros apelio yn erbyn unrhyw rai o'n penderfyniadau, rwyf hefyd yn awyddus iawn i weld bod yr ymrwymiad a wnaed gan y Gwasanaeth Tribiwnlysoedd yn cael ei wireddu

yn ymarferol. Hoffwn ofyn i'n defnyddwyr roi gwybod i mi am unrhyw achos lle chlywir apelau yn erbyn ein penderfyniadau yng Nghymru.

Sylwadau clo

Mae hon wedi bod yn flwyddyn brysur a chynhyrchiol, yn arbennig gyda'r datblygiadau cyffrous ynghylch sefydlu hawliau i blant i wneud apêl a hawlio i'r Tribiwnlys. Mae'r Tribiwnlys yn hapus iawn i fod ar flaen y gad o ran sefydlu mwy o gyfranogiad gan blant a phobl ifanc mewn prosesau a phenderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau. Rwy'n edrych ymlaen at weithio gyda LICC a rhanddeiliaid eraill i fynd â'r cynllun hwn yn ei flaen ac rwy'n croesawu'r cam peilot, a fydd yn rhoi cyfle i ni fireinio ein prosesau i sicrhau ein bod yn bodloni anghenion defnyddwyr newydd ein Tribiwnlys.

Fel bob amser rwy'n ddiolchgar iawn i aelodau'r Tribiwnlys a'r ysgrifenyddiaeth am eu gwaith caled a'u hymrwymiad parhaus sy'n sicrhau ein bod yn cadw'r safonau uchel y mae'r Tribiwnlys hwn yn adnabyddus amdanynt. Mae Sian Mills wedi bod yn Ysgrifennydd dros dro i'r Tribiwnlys am yr 18 mis diwethaf.

Rwy'n hynod o falch ei bod bellach wedi ei phenodi yn barhaol i'r swydd hon, yn arbennig o ystyried yr holl waith caled a wnaeth yn ystod y cyfnod hwn. Rwy'n edrych ymlaen at flwyddyn newydd y Tribiwnlys gyda hyder y caf gymorth ac ymroddiad parhaus aelodau ac ysgrifenyddiaeth y Tribiwnlys.

Fel y gellir gweld mae hon wedi bod yn flwyddyn brysur ond mae'r ysgrifenyddiaeth wedi ymateb i bob her. Mae'n bleser gweithio gyda phobl mor ymroddedig, proffesiynol a theyrngar. Gyda thîm o'r fath, rwy'n hyderus fod y Tribiwnlys mewn sefyllfa dda i ateb yr heriau sy'n sicr o ddod yn ystod y flwyddyn i ddod.

Nifer yr Apelau AAA

Yn ystod y flwyddyn o 1 Medi 2008 i 31 Awst 2009, derbyniodd Tribiwnlys AAA Cymru 103 o apelau yn erbyn penderfyniadau AAA.


Yn ystod y flwyddyn, cofrestrwyd 92, gan gynnwys 1 a gyflwynwyd yn y flwyddyn flaenorol, gyda'r gweddill yn cael eu gwrthod neu eu tynnu'n ôl cyn cofrestru.

Yn ychwanegol at y 92 apêl a gofrestrwyd, ymdriniwyd hefyd â 26 o apelau na lwyddwyd i'w trin o fewn blwyddyn flaenorol y Tribiwnlys.

Mae nifer yr apelau a gofrestrwyd eleni sef 92 yn weddol debyg i'r 94 a gofrestrwyd yn ystod blwyddyn flaenorol y Tribiwnlys. Mae'r niferoedd wedi sefydlogi yn dilyn gostyngiad o'r 150 a gofrestrodd yn ystod 2005/06 i 118 yn 2006/07 a 94 yn ystod blwyddyn ddiwethaf y Tribiwnlys.

Apelau ar gyfer Blwyddyn y Tribiwnlys


SEN Appeals registered by Tribunal year *(need translation)*



Apelau AAA - Rhaniad Bechgyn:Merched

Yn ystod y flwyddyn cofrestrwyd 65 (71%) o apelau AAA yn ymwneud â bechgyn, a'r ffigur cyfatebol ar gyfer merched oedd 27 (29%). Mae canran eleni ar gyfer bechgyn yn nodi cynnydd bychan ers y llynedd, lle roedd y ffigur yn 68%. Ond mae ffigurau yn debyg i flynyddoedd blaenorol; yn 2003/04 a 2004/05, roedd 73% a 77% o'r holl apelau a dderbyniwyd yn ymwneud ag AAA bechgyn, yn 2005/06 a 2006/07 roedd y rhifau yn sefydlog ar 74%.

Rhaniad Bechgyn:Merched



Cyflymder Trin yr Achosion gan Wrandawriad

Mae'r adran hon yn ymdrin â pha mor hir yn nhermau dyddiau gwaith a gymerodd rhwng i apêl gael ei chofrestru a chyhoeddi'r penderfyniad.

Mae nifer cyfartalog y dyddiau gwaith a gymerir i waredu apelau (drwy wrandawriadau) wedi gostwng i 83.1 o gyfartaledd o 90 yn y flwyddyn flaenorol. O'r 28 o achosion a glywyd, bu'n rhaid gohirio 2 oherwydd cymhlethdod yr achos neu oherwydd tystiolaeth annigonol.

Nifer y penderfyniadau a gyhoeddwyd	28
Nifer cyfartalog y dyddiau i gyhoeddi penderfyniad	7.8

Nifer cyfartalog y dyddiau a gymerir i benderfyniad gael ei gyhoeddi yw ychydig o dan 8.

Mae'r tabl isod yn cyflwyno'r dull y gwaredwyd 118 o apelau (92 wedi eu cofrestru ym mlwyddyn Tribiwnlys 2008/09 a 26 wedi eu dwyn ymlaen o flwyddyn 2007/08), gan gynnwys y nifer o dan ystyriaeth, a fydd yn cael eu dwyn ymlaen i flwyddyn nesaf y Tribiwnlys. Mae nifer y penderfyniadau wedi parhau yn sefydlog, gyda 28 o benderfyniadau yn cael eu cyhoeddi'r llynedd ac eleni. Arhosodd canran yr apelau cofrestredig naill ai a gafodd eu tynnu'n ôl gan rieni neu eu cydsynio gan AALL yn weddol gyson hefyd gyda 55% eleni o'i gymharu â 54% ar gyfer 2007/08. (Roedd yn 60% ym mlynnyddoedd 2006/07 ac yn 54% a 50% yn 2004/05 a 2003/04 yn y drefn honno). Rydym yn parhau i fonitro nifer yr apelau sydd naill ai yn cael eu tynnu'n ôl neu eu cydsynio yn ddiweddar yn y broses.

Mae canran yr apelau a gofrestrwyd ond sy'n dal i ddisgwyl gwrandawriad, 21%, ychydig yn is o'i gymharu â'r llynedd, 22%, ond yn uwch na 2006/07 a 2005/06 pan oedd y ffigur yn 16%. Mae hefyd yn dangos gostyngiad ar flynyddoedd 2004/05, 26% a 2003/04, 27%.

08/09	Gwirion- eddol	Canran	07/08	Gwirion- eddol	Canran
Penderfynwyd	28	24	Penderfynwyd	28	24
Tynnwyd yn ôl	45	39	Tynnwyd yn ôl	46	39
Cydsyniwyd	19	16	Cydsyniwyd	18	15
Diddymwyd	0	0	Diddymwyd	0	0
Dan ystyriaeth	25	21	Dan ystyriaeth	26	22
Cyfanswm	117	100	Cyfanswm	118	100

¹ Yn unol â rheoliadau'r Tribiwnlys ni chynhwysir y canlynol fel dyddiau gwaith: Dydd Sadwrn a Dydd Sul, unrhyw ddiwrnod yn Awst, unrhyw ddiwrnod o 25 Rhagfyr i 1 Ionawr yn gynwysedig, gwyliau'r banc.

Apelau fesul AAA

Mae'r tabl hwn yn nodi nifer yr apelau a gofrestrwyd fesul AALL yn ystod blwyddyn Tribiwnlys 2008/09.

	08/09	(Ar gyfer pob 10,000 o boblogaeth ysgol)	07/08	06/07	05/06	04/05	03/04
Blaenau Gwent	2	1.82	1	2	4	3	0
Pen-y-bont ar Ogwr	0	0.00	1	3	2	2	2
Caerffili	9	3.03	2	12	3	1	3
Caerdydd	19	3.66	19	26	37	33	35
Sir Gaerfyrddin	17	6.00	19	5	5	6	5
Ceredigion	2	1.97	1	2	2	2	1
Conwy	4	2.28	8	6	1	4	8
Sir Ddinbych	0	0.00	2	4	2	6	0
Sir y Fflint	4	1.64	1	1	0	2	3
Gwynedd	2	1.10	2	1	2	3	3
Merthyr Tudful	0	0.00	0	2	1	2	0
Sir Fynwy	8	5.73	8	9	11	8	5
Castell-nedd Port Talbot	3	1.41	3	2	14	7	6
Casnewydd	8	3.21	2	19	45	30	15
Sir Benfro	0	0.00	0	2	0	2	0
Powys	1	0.48	3	7	5	3	7
Rhondda Cynon Taf	0	0.00	5	4	3	2	4
Abertawe	7	1.95	5	4	7	5	7
Torfaen	5	3.08	9	4	1	4	3
Bro Morgannwg	0	0.00	2	2	1	0	8
Wrecsam	0	0.00	1	0	2	1	2
Ynys Môn	1	1.01	0	1	2	1	0

Apelau yn ôl AALI ac yn ôl Math

Mae'r tabl hwn yn nodi cyfanswm nifer yr apelau a gofrestrwyd ar sail AALI yn ôl y math o apêl yn ystod blwyddyn Tribiwnlys 2008/09. Mae apelau cyn-datganiad yn apelau ynghylch gwrthod asesu a gwrthod rhoi datganiad. Mae apelau cynnwys datganiad yn apelau sy'n cynnwys cyfuniad o rannau 2, 3 a 4 y datganiad AAA.

	Nifer yr apelau cyn datganiad yn ôl AALI	% Cyfanswm apelau cyn-datganiad yn ôl AALI	Nifer apelau cynnwys datganiad yn ôl AALL	% Cyfanswm apelau cynnwys datganiad yn ôl AALL
Blaenau Gwent	1	2	1	2
Pen-y-bont ar Ogwr	0	0	0	0
Caerffili	2	5	6	13
Caerdydd	6	14	13	28
Sir Gaerfyrddin	8	19	9	20
Ceredigion	2	5	0	0
Conwy	2	5	1	2
Sir Ddinbych	0	0	0	0
Sir y Fflint	4	9	0	0
Gwynedd	2	5	0	0
Merthyr Tudful	0	0	0	0
Sir Fynwy	5	12	3	7
Castell-nedd Port Talbot	1	2	2	4
Casnewydd	3	7	5	11
Sir Benfro	0	0	0	0
Powys	0	0	1	2
Rhondda Cynon Taf	0	0	0	0
Abertawe	4	9	3	7
Torfaen	3	7	2	4
Bro Morgannwg	0	0	0	0
Wrecsam	0	0	0	0
Ynys Môn	0	0	0	0
CYFANSWM	43	100	46	100


Canlyniad yn ôl AALI

Mae'r tabl hwn yn dangos y canlyniadau yn 2008/09 fesul AALI. Mae'r ffigurau yn cynnwys apelau cofrestredig a ddygwyd ymlaen o 2007/08 ond a waredwyd yn ystod y cyfnod adrodd hwn. Lle na chafodd apêl ei hategu cofnodwyd hyn fel "gwrthodwyd".

AALI	Cydsyn- iwyd gan yr AALI	Tynnwyd yn ôl gan y rhieni	Ategwyd yn rhannol neu yn llawn	Gwrthodwyd yn y gwrandaw- iad	O dan ystyriaeth
Blaenau Gwent		2		1	
Pen-y-bont ar Ogwr		1			
Caerffili	1	5			4
Caerdydd	3	9	6	1	6
Sir Gaerfyrddin	5	10	5		1
Ceredigion	1		1		
Conwy		2	1		2
Sir Ddinbych					
Sir y Fflint		2	2		1
Gwynedd	1	1			
Merthyr Tudful					
Sir Fynwy	3	3	1		1
Castell-nedd Port Talbot		1		1	1
Casnewydd		2		1	5
Sir Benfro					
Powys		1	1		1
Rhondda Cynon Taf			3		
Abertawe	2	2	1		2
Torfaen	3	1	3		1
Bro Morgannwg		2			
Wrecsam					
Ynys Môn		1			
CYFANSWM	19	45	24	4	25

² Trosglwyddwyd un apêl i awdurdodaeth arall.

Mathau o Apêl



- Gwrthodiad i Aseu
- Gwrthodiad i Gweud Datganiad
- Gwrthodiad i Ail-Aseu
- Yn erbyn penderfyniad i beidio â pharhau â'r Datganiad
- Cynnwys Rhannau 2 & 3
- Cynnwys Rhannau 2, 3 & 4
- Cynnwys Rhan 3
- Cynnwys Rhan 4
- Cynnwys Rhannau 3 & 4

Mathau o Apêl ³	% yr Apelau 2008/09	% yr Apelau 2007/08	% yr Apelau 2006/07	% yr Apelau 2005/06	% yr Apelau 2004/05	% yr Apelau 2003/04
	Cyfanswm yr Apelau 92	Cyfanswm yr Apelau 94	Cyfanswm yr Apelau 118	Cyfanswm yr Apelau 150	Cyfanswm yr Apelau 127	Cyfanswm yr Apelau 117
Gwrthod Asesu	28	17	25	24	25	39
Gwrthod rhoi Datganiad	19	13	16	7	11	12
Gwrthod Ail-asesu	2	2	2	1	2	2
Dirwyn datganiad i ben	1	2	3	3	2	2
Cynnwys Rhannau 2 a 3	11	21	24	21	16	18
Cynnwys Rhannau 2, 3 a 4	29	32	21	23	27	11
Cynnwys Rhan 3	7	5	5	10	9	7
Cynnwys Rhan 4	1	8	2	5	6	5
Cynnwys Rhannau 3 a 4	2	0	2	6	2	4


Eleni rydym wedi gweld cynnydd sylweddol (17%) yn nifer yr apelau sydd am faterion cyn-datganiad, gwrthod asesu a gwrthod rhoi datganiad. Mae'r mathau hyn o apelau bellach yn cyfrif am 47% o'r holl apelau a gofrestrwyd o'i gymharu â 30% y llynedd. Mae apelau am gynnwys y datganiad yn ffurfio 50% o'r holl apelau a gofrestrwyd eleni o'i gymharu â 66% y llynedd.

³ Canran wedi ei dalgrynnu

Apêl yn ôl Natur yr Angen Addysgol Arbennig

Mae'r wybodaeth a roddir isod yn cyflwyno apelau yn ôl natur yr AAA. Unwaith eto mae gennym anghenion wedi eu cofnodi y cyfeiriwyd atynt gan rieni a/neu AALI wrth gyflwyno'r apêl. Yn unol â'r duedd arferol mae apelau am Anhwylder y Sbectrwm Awtistig ac Anhwylderau Dysgu Penodol yn cyfrif am bron i hanner yr holl apelau a gofrestrwyd. Mae'n ddiddorol nodi y bu cynnydd mewn apelau sy'n ymwneud ag Anawsterau Emosiynol ac Ymddygiadol ac Anawsterau Dysgu Cymedrol a gostyngiad mewn apelau am Anawsterau Lleferydd ac Iaith ac AAA Lluosog.

Math o AAA



- Anhwylder yn y Sbectrwm Awtistig
- Anawsterau Emosiynol ac Ymddygiadol
- Nam ar y Clyw
- Anawsterau Dysgu Penodol (gan gynnwys llythrennedd/dyspracsia)
- Anawsterau Dysgu Cymedrol
- Anawsterau Corfforol/Meddygol
- Anawsterau Dysgu Difrifol a Lluosog
- Anawsterau Dysgu Dwys
- Anawsterau Dysgu Lleferydd ac Iaith
- Nam ar y Golwg
- AAA Lluosog
- Arall/Anhysbys

Math o AAA ⁴	% o Apelau 2008/09	% o Apelau 2007/08	% o Apelau 2006/07	% o Apelau 2005/06	% o Apelau 2004/05	% o Apelau 2003/04
	Cyfanswm yr Apelau 92	Cyfanswm yr Apelau 94	Cyfanswm yr Apelau 118	Cyfanswm yr Apelau 150	Cyfanswm yr Apelau 127	Cyfanswm yr Apelau 117
Anhwylder y Sbectrwm Awtistig	19	21	24	22	30	22
Anawsterau Emosiynol ac Ymddygiadol	13	8	7	11	9	7
Amhariad ar y clyw	2	3	3	5	1	3
Anawsterau dysgu penodol (gan gynnwys Llythrennedd/ Dyspracsia)	27	21	21	20	22	33
Anawsterau Dysgu Cymedrol	8	2	10	2	4	1
Anawsterau Ffisegol/ Meddygol	11	10	9	9	0	0
Anawsterau Dysgu Dwys a Lluosog	1	2	5	5	0	0
Anawsterau Dysgu Difrifol	1	0	1	4	2	4
Anawsterau Lleferydd ac Iaith	5	12	8	9	10	5
Amhariad ar y Golwg	1	0	0	0	0	0
AAA Lluosog	7	18	7	13	16	16
Eraill/Anhysbys	5	3	5	0	6	2

⁴ Canran wedi ei dalgrynnu

Canlyniad Apelau: Cyffredinol

Fel yn ystod cyfnodau adrodd blaenorol, cafodd dros 75%, yn yr achos hwn 82% o'r holl apelau a aeth ymlaen i wrandawriad llawn eu hategu naill ai yn llawn neu yn rhannol. O'r 28 o apelau a aeth ymlaen i wrandawriad, cafodd 4 eu gwrthod.

Apelau yn ôl Math	Penderfyniadau a gyhoeddwyd 2008/09			Penderfyniadau a gyhoeddwyd 2007/08		
	Ategwyd	Gwrthodwyd	Taflwyd allan	Ategwyd	Gwrthodwyd	Taflwyd allan
Yn erbyn gwrthod asesu	3			2	1	
Yn erbyn gwrthod rhoi Datganiad	2	2		1	4	
Yn erbyn gwrthod Ailasesu						
Yn erbyn penderfyniad i Ddirwyn Datganiad i ben						
Yn erbyn cynnwys Rhannau 2 a 3	9			2		
Yn erbyn cynnwys Rhannau 2, 3 a 4	9			16		
Yn erbyn cynnwys Rhan 3	1			1		
Yn erbyn cynnwys Rhan 4		2		1		
Yn erbyn cynnwys Rhannau 3 a 4						
Cyfansymiau	24	4	0	23	5	0

Canlyniadau Apelau: Ysgolion

Gwrandawyd 11 apêl oedd yn ceisio newid penderfyniadau yn ymwneud ag ysgol a enwyd yn rhan 4 datganiad y plentyn. O blith y rhain cafodd 7 eu hategu mewn perthynas â rhannau 2, 3 a 4. Y ffigurau cyfatebol ar gyfer 07/08, 06/07, 05/06, 04/05 ac 03/04 oedd 17, 16, 22, 15 ac 8 yn y drefn honno. O'r 11 apêl, ni orchmyynnwyd diwygiadau rhan 4 mewn 2 achos.

	Diwygio Datganiad - Ategwyd Rhan 4	Diwygio Datganiad - Ategwyd Rhannau 3 a 4	Diwygio Datganiad - Ategwyd Rhannau 2, 3 a 4
Ysgol a Gynhelir yn y Brif Ffrwd			1
Ysgol Annibynnol Arbennig a Gymeradwywyd			5
Ysgol Arbennig a Gynhelir			1
Hyfforddiant Cartref			
Addysg heblaw yn yr Ysgol			
Addysg yn yr Ysgol a Hyfforddiant Gartref			

Canlyniad Apelau yn ôl natur yr AAA

Apelau yn ôl AAA	Penderfyniadau a gyhoeddwyd 2008/09			Penderfyniadau a gyhoeddwyd 2007/08		
	Ateg- wyd	Gwrthod- wyd	Taflwyd allan	Ateg- wyd	Gwrthod- wyd	Taflwyd allan
Anhwylder y Sbectrwm Awtistig	5	1		9	1	
Anawsterau Emosiynol ac Ymddygiadol	3			2	1	
Amhariad ar y clyw	2			2		
Anawsterau dysgu penodol (gan gynnwys Llythrennedd/ Dyspracsia)	6	2		1	3	
Anawsterau Dysgu Cymedrol		1				
Anawsterau Ffisegol/ Meddygol	2			4		
Anawsterau Dysgu Dwys a Lluosog				1		
Anawsterau Dysgu Difrifol						
Anawsterau Lleferydd ac Iaith				3		
Amhariad ar y Golwg	1					
AAA Lluosog	5			1		
Eraill/Anhysbys						
CYFANSWM	24	4	0	23	5	0

Monitro Ethnig

Gwahoddir rhieni i gwblhau datganiad monitro ethnig a anfonir gyda'r hysbysiad o apêl.

	2008/09	2007/08	2006/07	2005/06	2004/05	2003/04
Bangladesaidd	0	0	0	0	1	1
Affricanaidd Du	0	0	1	4	1	1
Du Arall	1	0	0	1	0	0
Pacistanaidd	0	1	3	0	0	2
Gwyn	81	67	99	135	120	93
Arall	2	4	2	7	1	2
N/C	8	22	13	10	24	29

Hawliadau Gwahaniaethu ar Sail Anabledd

Cafodd 2 hawliad o wahaniaethu ar sail anabledd eu gwneud a'u cofrestru eleni, ac mae'r ddau o dan ystyriaeth. Cafodd 4 hawliad eu dwyn ymlaen o'r llynedd, ac aeth y cyfan ymlaen i wrandawriad gyda'r canlyniad fod 2 wedi eu hategu a 2 wedi eu gwrthod.

Apelau'r Uwch Dribiwnlys

Gall rhieni ac AALI apelio i Haen Uchaf y Gwasanaeth Tribiwnlysoedd mewn achosion lle credant fod penderfyniad gan dribiwnlys yn wallus ar bwynt o gyfraith. Rhaid gofyn yn gyntaf am ganiatâd i apelio i'r Uwch Dribiwnlys oddi wrth TAAAC. Ni wnaed unrhyw apelau i'r Uwch Dribiwnlys yn ystod y flwyddyn adrodd hon.

Cwynion

Ni wnaed unrhyw gwynion ffurfiol i'r Llywydd yn ystod y flwyddyn.

Gwariant - 1 Ebrill 2008 i 31 Mawrth 2009

Gwariant	2008/09
Llywydd y Tribiwnlys a ffioedd a thaliadau'r aelodau	£100,183.46
Hyfforddiant y Tribiwnlys	£5,640.50
Gwrandawiadau a llety i'r grŵp defnyddwyr	£62,519.84
Treuliau eraill yn ymwneud ag apelau (hawliadau tystion, cyfieithu ac ati)	£7,973.71
Cyflogau	£125,529.00
Treuliau'r swyddfa (gan gynnwys nwyddau)	£4,476.12
Costau argraffu a'r cyfryngau	£2,653.29
Ffioedd cyfreithiol	£6,468.49
CYFANSWM	£315,444.41

Yn ychwanegol at y gwariant uniongyrchol ceir cyfran o'r costau rhent a chyfleustodau ar y llety a rennir gan y Tribiwnlys, cyfran o ryw £20,000 a delir yn ganolog.

Total expenditure for previous years:

2007/08 Cyfanswm £316,960

2006/07 Cyfanswm £345,118

2005/06 Cyfanswm £363,353

2004/05 Cyfanswm £249,732

2003/04 Cyfanswm £407,000

Aelodaeth y Tribiwnlys

Mae'r Tribiwnlys yn cynnwys yr aelodau canlynol. Buont i gyd naill ai yn llywyddu dros neu yn eistedd ar wrandawiadau yn ystod y flwyddyn 1 Medi 2008 i 31 Awst 2009:

Llywydd

Rhiannon Ellis Walker OBE

Cadeiryddion

Mark Allen

Jacqueline Blackmore

Gwyn Davies

Meleri Tudur

Aelodau Lleyg

Sandra Boyle

Norman Donovan

Gwyn Griffiths

Gareth Roberts

Siân Wyn Siencyn

Susan Taylor

Andrew Wilson

Ysgrifenyddiaeth y Tribiwnlys

Mae'r Ysgrifenyddiaeth yn gyfrifol am weinyddu'r Tribiwnlys.

Rheolwr/Ysgrifennydd/ y Tribiwnlys	Siân Mills	Ffôn. 01597 829803
Rheolwyr Rhanbarthol	Pam Hawkes Leon Mills	Ffôn. 01597 829802 Ffôn. 01597 829805
Cymorth i'r Tîm	Sarah Smith Tania Ryland	Ffôn. 01597 829809 Ffôn. 01597 829806

Yn ychwanegol rydym yn gweithredu'r canlynol:

Gwefan y Tribiwnlys: www.sentw.gov.uk

Llinell Gymorth Ffôn y Tribiwnlys: 01597829800

Ffacs y Tribiwnlys: 01597 829801

Blwch Post y Tribiwnlys: tribunalenquiries@wales.gsi.gov.uk